# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Claire Fletcher**

**Glannau Dyfrdwy**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Claire Fletcher yn darparu gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref yn Shotton, Glannau Dyfrdwy. Mae wedi ei chofrestru i ofalu am hyd at 9 plentyn o dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00 a 17:00, gan gau ar gyfer gwyliau banc, tua wythnos adeg y Nadolig a thair wythnos ychwanegol drwy gydol y flwyddyn. Cynigir lleoedd Dechrau'n Deg.

Saesneg yw prif iaith y gofal. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac yn rhyngweithio'n dda.  Maent yn ymddiddori yn eu gweithgareddau, yn gwneud dewisiadau ac yn dod yn annibynnol.  Mae'r gwarchodwr plant yn gyfeillgar ac yn ofalgar gyda'r plant ac mae'n dilyn polisïau effeithiol sy'n eu cadw'n iach ac yn ddiogel.  Mae'n annog y plant i ryngweithio'n dda ac mae'n cynllunio gweithgareddau'n ofalus er mwyn hyrwyddo dysgu a diwallu anghenion unigol y plant.  Mae cartref y gwarchodwr plant yn ddiogel.  Mae'n drefnus iawn ac yn groesawgar, ac mae teganau o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion y plant.  Fodd bynnag, nid yw'r ardd bob amser yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n hybu chwarae'r plant.  Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn rhedeg ei busnes yn effeithiol.  Mae'n unigolyn myfyriol sy'n gwneud gwelliannau ac yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldebau.  Mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni ac mae'n mynd â'r plant ar deithiau yn rheolaidd, sydd yn sicr yn fuddiol i'w dysgu.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud sawl gwelliant gan gynnwys:

- mynychu cwrs hyfforddiant ar synhwyrau plant
- lefelu'r lawnt uchaf
- newid y drysau patio a'r bleinds
- prynu llawer o deganau newydd.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â dogfennaeth, adnoddau naturiol/darnau rhydd a'r ardd.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau bod yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn llawn cymhelliant, yn gwneud dewisiadau ac yn dod yn annibynnol. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol ac maent yn rhyngweithio'n dda.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn lleisio eu barn ac yn gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, maent yn penderfynu pa deganau y maent am chwarae gyda nhw ac yn gofyn i'r gwarchodwr plant dynnu ffotograffau o'u gwaith, ac mae'n gwneud hynny. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu parchu. Er enghraifft, mae'r plant yn awgrymu mynd ar deithiau ac mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar yr awgrymiadau hyn.

Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Er enghraifft, wrth ddeffro o'u cwsg, mae'r babanod yn hoffi cael eu cofleidio ac yn ymlacio drwy orffwys eu pen ar ysgwydd y gwarchodwr plant. Roedd y plant hŷn yn helpu'r plant iau ac yn mwynhau pwyntio at eu ffrindiau mewn ffotograffau. Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo fel rhan o'r gwasanaeth. Er enghraifft, caiff eu gwaith ei arddangos, sy'n gwneud iddynt deimlo'n falch ac maent yn gyfarwydd â'r trefniadau, megis mynd i gysgu ar ôl cinio.

Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda. Mae'r babanod yn dod yn fwy hunanymwybodol ac yn dysgu sut i fynegi eu hanghenion. Er enghraifft, maent yn nodi pa lyfr maent am ei ddarllen ac yn gofyn am gael eu cofleidio. Mae'r plant yn mwynhau cwmni'r gwarchodwr plant ac yn sgwrsio'n hapus am eu chwarae. Er enghraifft, wrth drafod creu pot llusern ac eistedd ar lin y gwarchodwr plant wrth ddarllen straeon.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, yn talu sylw ac yn ymddiddori yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, maent yn falch wrth ddangos eu darluniau. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth ddarllen ac yn mwynhau chwilio am hwyaid yn y llyfrau lluniau. Mae'r plant yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau dod i gartref y gwarchodwr plant, a chafodd hyn ei gadarnhau gan y sampl o holiaduron rhieni y gwnaethom eu darllen.

Mae'r plant yn cael llawer o brofiadau, sy'n eu helpu i ddatblygu'n dda. Caiff sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth eu hybu, am fod y plant yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r babanod yn sychu eu ceg a'u hambwrdd eu hunain ar ôl bwyta ac mae'r plant hŷn yn defnyddio'r toiled heb fawr ddim cymorth. Mae'r plant yn rhoi croen eu bananas yn y bin ac yn mynd â'u platiau i'r gegin. Mae'r tasgau hyn yn helpu'r plant i baratoi ar gyfer yr ysgol.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn polisïau a threfniadau effeithiol sy'n cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Caiff y rhyngweithio ei reoli'n gadarnhaol ac mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio strategaethau llwyddiannus. Mae'n ofalgar ac yn gefnogol ac mae'n cynllunio gweithgareddau a ddewisir yn ofalus i hybu dysgu ac i ddiwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn trefniadau effeithiol sy'n cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, caiff diogelu ei flaenoriaethu ac mae'r gwarchodwr plant yn gwybod beth y dylai ei wneud os bydd ganddi bryderon am blentyn. Mae'r cofnodion yn dangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, caiff arferion hylendid da eu dilyn a chaiff ffyrdd iach o fyw eu hybu yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r bwyd yn iach ac mae'r plant yn cael cyfle i fod yn egnïol bob dydd. Fodd bynnag, weithiau caiff diod ffrwythau ei roi yn lle dŵr neu laeth ac nid oedd y polisi anifeiliaid anwes wedi cael ei adolygu. Mae'r gwarchodwr plant yn cael hyfforddiant rheolaidd ac mae ganddi dystysgrifau cyfredol mewn cymorth cyntaf pediatrig, diogelwch bwyd ac amddiffyn plant. Caiff damweiniau/digwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda. Mae'n sicrhau bod y plant yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud drwy roi cyfarwyddiadau clir iddynt. Mae'r gwarchodwr plant yn gyfeillgar, yn garedig ac yn fodel rôl da. Er enghraifft, mae'n siarad â'r plant gyda pharch, yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddweud ac yn dangos iddynt sut i ddefnyddio moesau da.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol, yn ofalgar ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion unigol y plant. Er enghraifft, mae'r babanod yn mynd i gysgu pan fyddant wedi blino ac mae'n cefnogi'r plant hŷn yn dda drwy ofyn cwestiynau allweddol i ddatblygu eu chwarae dychmygus ymhellach. Mae'r gwarchodwr plant yn olrhain datblygiad y plant drwy ysgrifennu arsylwadau ac mae'n ymwybodol o'r hyn y mae pob plentyn yn gweithio arno. Er enghraifft, mae'r babanod yn datblygu eu sgiliau iaith ac yn dysgu i fwydo eu hunain. Bob wythnos, mae'r gwarchodwr plant yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau diddorol, sy'n datblygu eu dysgu. Mae'n mynd â'r plant ar deithiau rheolaidd megis i grwpiau plant bach, ysgubor chwarae a pharciau. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol y plant ac yn eu hannog hefyd i fod yn egnïol.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae cartref y gwarchodwr plant yn lân ac yn ddiogel. Mae'r plant yn cael gofal mewn cartref croesawgar a threfnus iawn, gyda theganau y mae'r plant yn mwynhau chwarae gyda nhw.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant ac mae'n gofalu amdanynt mewn cartref diogel. Mae asesiadau risg ysgrifenedig yn fanwl ac mae'n sicrhau bod risgiau posibl i'r plant yn cael eu lleihau neu eu dileu. Mae'r drysau ar glo, mae'r ardd yn gaeedig ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y teganau â rhannau bach yn cael eu cadw draw o'r babanod. Fodd bynnag, nid yw asesiadau risg yn cynnwys dyddiadau adolygu. Mae'r trefniadau glanhau yn dangos ei bod yn dilyn arferion hylendid da a chaiff gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch eu cynnal yn y tŷ yn rheolaidd.

Mae cartref y gwarchodwr plant yn groesawgar, yn lân ac yn drefnus. Mae'n meddwl yn ofalus am ffyrdd o wneud i'r plant deimlo eu bod yn rhan o'r teulu. Er enghraifft, mae gwaith y plant yn cael ei arddangos sy'n gwneud iddynt deimlo'n falch, ac mae'r plant yn mwynhau pwyntio at ffotograffau o'u ffrindiau sydd ar y wal. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth dda o deganau sy'n ddeniadol i'r plant, ac mae'n sicrhau eu bod yn hawdd eu cyrraedd. Er enghraifft, gall y plant helpu eu hunain i bapur lliw a phennau sydd yn y droriau yn yr ystafell fwyta. Mae bocsys hefyd wedi'u labelu â ffotograffau sy'n helpu'r plant i ddod o hyd i'r teganau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r ardd yn cael ei defnyddio'n ddigon rheolaidd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod hyn rhywbeth y mae'n awyddus i'w ddatblygu ymhellach.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bodamrywiaeth o deganau glân o ansawdd da ar gael sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant. Er enghraifft, mae gemau ar gyfer y plant hŷn yn ogystal â theganau a llyfrau synhwyraidd ar gyfer y babanod. Mae rhywfaint o adnoddau naturiol ar gael i'r plant eu defnyddio ac mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo amrywiaeth yn briodol. Er enghraifft, maent yn dysgu am ddiwylliannau eraill drwy ddathlu digwyddiadau ac mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio ffotograffau i siarad am wahaniaethau o bob cwr o'r byd. Mae'r gwarchodwr plant yn dechrau casglu eitemau sgrap megis olwyn fawr ar gyfer chwarae yn yr ardd ac mae ganddi ddiddordeb mewn dysgu mwy am 'chwarae darnau rhydd'. Gall y math hwn o chwarae fod o fudd i'r plant am ei fod yn cefnogi dyfeisio, yn datrys problemau ac yn creu ymdeimlad o ryfeddod.

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn rhedeg ei busnes yn effeithiol. Mae'n unigolyn myfyriol sy'n gwneud gwelliannau ac yn gwbl ymwybodol o'i chyfrifoldebau, ac mae'n cadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â rhieni ac mae'n mynd â'r plant ar deithiau rheolaidd, sydd o fudd i'w dysgu.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol, yn gweithio'n galed ac yn rhedeg ei busnes yn dda. Mae'n rhoi diogelwch a llesiant y plant wrth wraidd popeth a wna, sy'n arwain at ganlyniadau da i'r plant. Mae'r datganiad o ddiben yn fanwl ac yn adlewyrchu'n gywir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn dilyn yr holl reoliadau ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, neu'n rhagori arnynt, yn barhaus.

Mae'r gwarchodwr plant yn fyfyriol ac yn adolygu'r gofal y mae'n ei ddarparu yn effeithiol. Caiff barn y rhieni eu casglu'n rheolaidd drwy holiaduron a chaiff y rhain eu hystyried wrth lunio'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal, gan gynnwys meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae gan y gwarchodwr plant gynlluniau i wella ei gardd a phrynu cyfarpar awyr agored newydd. Yn ogystal â hyn, mae'n mwynhau dysgu gan weithwyr proffesiynol eraill, megis athro cyswllt Dechrau'n Deg ac mae'n hapus i roi cynnig ar awgrymiadau. Er enghraifft, mae bellach yn arddangos gwaith y plant ac mae wedi prynu clustogau i'r plant eistedd arnynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys iawn ac yn brofiadol. Mae'n sicrhau bod ei hyfforddiant yn gyfredol ac mae hyn yn ei helpu i ddiwallu anghenion y plant y mae'n gofalu amdanynt. Mae gan bob aelod o deulu'r gwarchodwr plant sy'n byw yn y cyfeiriad gliriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofnodion cofrestru'r plant yn drefnus iawn ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ar deithiau rheolaidd o amgylch yr ardal leol, sy'n eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned ac yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am yr hyn y mae'r plant wedi'i wneud yn ystod y diwrnod hwnnw drwy sgwrsio â nhw pan fyddant yn casglu eu plant ac yn ysgrifenedig mewn dyddiaduron.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Er mwyn gwella arferion, gallai'r gwarchodwr plant ystyried y canlynol:

- datblygu'r defnydd o adnoddau naturiol a 'darnau rhydd' er mwyn hybu chwarae penagored
- datblygu'r defnydd o'r ardd er mwyn cyfoethogi profiadau chwarae a dysgu'r plant
- diweddaru ei pholisi anifeiliaid anwes ac ychwanegu dyddiadau at ei hasesiadau risg.

## 6. **Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn**

Roedd hwn yn arolygiad llawn lle rhoddwyd cyfnod o rybudd byr i'r gwarchodwr plant gadarnhau ei bod ar gael.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth rhwng 12:30 a 16:00 ddydd Mercher 19 Chwefror 2020.

Gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar ymarfer a'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant
- archwilio'r amgylchedd a'r teganau
- siarad â'r gwarchodwr plant a'r plant
- darllen sampl o'r holiaduron a anfonwyd gan y gwasanaeth
- darllen sampl o'r holiaduron i rieni a anfonwyd gennym
- edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion gan gynnwys y datganiad o ddiben, polisïau, gweithdrefnau, a chofnodion y plant
- rhoi adborth i'r unigolyn cofrestredig ar ddiwrnod yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Claire Fletcher** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **9** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:45 a 17:30. Ar gau ar gyfer gwyliau banc, y Nadolig a thua tair wythnos ychwanegol drwy gydol y flwyddyn.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **20 Chwefror 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **19 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.<br>Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny.<br><br>Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/07/2020